NPDA

RCPCH Audits

Archwiliad Diabetes Pediatrig Cenedlaethol

Adroddiad Rhieni a Gofalwyr 2019-2020

Cyhoeddwyd 2021

HQIP
Healthcare Quality Improvement Partnership

RCPCH
Royal College of Paediatrics and Child Health
Leading the way in Children's Health

Diabetes

Cyflwr yw diabetes mellitus (diabetes) lle mae swm y glwcos yn eich corff yn rhy uchel am na all y corff ei ddefnyddio'n iawn.

Mae tua 30,000 o blant a phobl ifanc â diabetes yng Nghymru a Lloegr sy'n derbyn gofal gan glinig diabetes pediatrig. Sef rhyw 2 o bob 1000 o blant yn y boblogaeth yn gyffredinol. Mae gan tua 95% Diabetes Math 1, a rhyw 5% diabetes Math 2 neu ffurfiau prin eraill o diabetes.

Ym mlwyddyn archwilio 2019-20, cafwyd mymryn dros 2,900 diagnosis newydd o diabetes Math 1, a 201 diagnosis newydd o diabetes Math 2 a dderbyniodd ofal mewn clinig diabetes pediatrig.

Ar dudalen 27, fe welwch eirfa o eiriau a thermau allweddol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn ynghylch gofal diabetes, felly fe all fod o gymorth i chi bori trwy'r eirfa os dewch ar draws unrhyw beth yn yr adroddiad nad ydych yn gyfarwydd ag ef.

Delwedd y clawr blaen gan Emilia Smith

Trosolwg

Mae'r Archwiliad Diabetes Pediatreig Cenedlaethol (NPDA) yn cael ei gynnal yn flynyddol yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r clinig yr ydych chi'n ymweld ag ef yn cymryd rhan yn yr NPDA. Ystyr hyn yw eu bod yn anfon gwybodaeth i dîm yr NPDA am yr holl wiriadau iechyd am diabetes a wnaethant dros y flwyddyn a aeth heibio, a chanlyniadau'r gwiriadau hyn. Mae tîm yr NPDA yn defnyddio'r wybodaeth hon i greu adroddiadau. Mae'r adroddiadau'n dangos sut y mae clinigau yn cymharu â'i gilydd mewn gwahanol feysydd gofal. Maent hefyd yn dangos lle mae modd gwneud gwelliannau cenedlaethol mewn gofal. Mae hyn yn golygu y gall timau diabetes weithio gyda'i gilydd i wneud unrhyw newidiadau fydd yn arwain at well gofal.

Gwiriadau iechyd 2019-20 Y gofal y dylai eich plentyn dderbyn

Mae adroddiad blynyddol yr NPDA yn rhoi gwybodaeth am y gwiriadau iechyd allweddol y dylai eich plentyn dderbyn.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth Iechyd a Gofal (NICE) yn argymell sawl gwiriad iechyd y dylid eu cynnal o leiaf unwaith y flwyddyn i blant a phobl ifanc â diabetes. Mae'r NPDA yn disgrifio saith o'r rhain fel y gwiriadau blynyddol 'allweddol' i blant a phobl ifanc â diabetes Math 1 a Math 2 yn yr adroddiad.

Mae'r tablau ar y dudalen nesaf yn disgrifio'r saith gwiriad allweddol hwn am ddiabtetes Math 1 a Math 2 ac yn dweud wrthych pryd y dylai eich plentyn eu derbyn.

Gwiriadau iechyd allweddol y dylai eich plentyn shouldreceive

Mae gan fy mhlentyn diabetes Math 1	
Gwiriad Iechyd	**Pryd?**
HbA1c	